Cyflymu Busnesau Cymru



CANLLAW SECTOR

# Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Busnes Cymru
Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cynnwys

Beth mae band eang cyflym iawn yn ei gynnig i'ch busnes? . . . . 4

Mae yna lawer o dechnoleg yn y cwmwl a fydd o gymorth i fusnes TGCh. . . . . 6

Gwnewch y gorau o TG. . . . . 9

Awgrymiadau . . . . 10

Manylion cyswllt . . . . 12



# Cael y gorau o TGCh gyda band eang cyflym iawn

Mae band eang cyflym iawn yn bwysig i unrhyw fusnes ble mae'r Rhyngrwyd a chyfathrebu'n bwysig, hynny yw 'unrhyw fusnes o gwbl' ar hyn o bryd. Mae'r defnydd o'r dechnoleg hon hyd yn oed yn fwy pwysig.

Mae yma gyfle heb ei debyg i'r sector TGCh nid yn unig i werthu'r dechnoleg ond i ddefnyddio'r cyflymdra sydd newydd ddod ar gael i werthu gwasanaethau'n seiliedig arni hefyd. Bydd y canllaw hwn yn amlinellu rhai o'r ffyrdd mae hynny'n bosibl ac yn ddangos rhywfaint o'r min cystadleuol mae band eang cyflym iawn yn ei gynnig.

Mae'n rhaid i chi fod yn y farchnad hon i fod ag unrhyw obaith i ddal i gystadlu mewn marchnad sy'n esblygu'n gyflym.

# Beth mae band eang cyflym iawn yn ei gynnig i'ch busnes?

Fel busnes TGCh mae'n debyg eich bod eisoes yn defnyddio rhyw fath o system band eang. Y newyddion da yw ei fod yn mynd i wella.




Ymysg manteision cysylltiad cyflymach y mae:

- **Cewch ddefnyddio gwasanaethau llais trwy Brotocol Llais Dros y Rhyngrwyd.** I fusnes TGCh mae hynny'n golygu galwadau ffôn llawer iawn rhatach. Mae hyn yn gyfle i werthu hefyd; mae gosod Llais Dros y Rhyngrwyd i gleient yn golygu mwy a mwy fusnes ac incwm i chi; i'r cleient mae'n golygu biliau ffôn llawer iawn llai. Mae'r rhai sylfaenol fel Skype yn adnabyddus ond bydd arbenigwr TGCh yn gallu cynnig gwasanaeth mwy corfforaethol, tebyg i switshfwrdd mewnol llawn.







- **Gallwch gyfathrebu'n ehangach na gyda llais yn unig.** Gallwch gysylltu â'ch cwsmeriaid mewn gwahanol ffyrdd; mae rhaglenni megis Yammer a Convo yn edrych fel Facebook neu LinkedIn ond eu bod yn breifat. Felly, gallwch gael rhwydwaith cydweithredol canolog y gellir ei chwilio yn hytrach nag e-byst ar wahanol cyfrifiaduron, ac felly gallwch rannu'n well a mwy effeithiol gyda chydweithwyr. Gallwch hefyd gael apiau sgwrsio mewnol i gyfnewid neges destun yn gyflym pan nad oes angen galwad ffôn. A gallwch gynnig cynadledda fideo. Bydd camera a microffon gwell na'r rhai sy'n cael eu rhoi gyda gliniaduron safonol yn gwella'r profiad gyda fideo.

**Yn y pen draw, dylech wario llai a chael cyfathrebiadau busnes mwy effeithiol.**

# Mae yna lawer o dechnoleg yn y cwmwl a fydd o gymorth i fusnes TGCh

- **Y teulu "…. fel gwasanaeth"**


  Yn draddodiadol, mae meddalwedd, a hefyd seilwaith, yn cael ei brynu gydag un taliad, unwaith ac am byth. Mae hynny'n esblygu. Ers blwyddyn neu ddwy bellach, mae wedi bod yn bosibl prynu rhaglenni mor gyffredin â Microsoft Office a thalu fesul mis, gyda'r tâl yn codi ac yn gostwng yn ôl nifer y defnyddwyr. Mae dwy fantais i hynny: yn gyntaf, mae costau cyfalaf yn troi'n gostau refeniw, ac mae'r adrannau cyllid yn hoffi hynny. Yn ail, dim ond am y gwasanaeth y mae'n ei ddefnyddio y mae'r cleient yn talu.

  Felly, fyddai hyn yn gweithio yn eich busnes chi? Byddai'n sicr o fantais i weithredwyr canolfan ddata, mae'n gyfle i gydleoli'ch data chi gyda data rhywun arall ac arbed costau, er enghraifft. Unwaith eto, mae cyfle'n codi i werthu'r manteision i'ch cleientiaid. Os ydych mewn busnes datblygu meddalwedd, fe allwch, erbyn hyn, droi taliad unwaith ac am byth gan gleient yn ffrwd o refeniw drwy gynnig eich meddalwedd ar sail gwasanaeth.






Ac nid y meddalwedd yn unig sy'n gweithio fel hyn. Gallwch gynnig seilwaith fel gwasanaeth hefyd drwy symud i'r cwmwl. Efallai nad oes gan eich cleient yr adnoddau na'r sgiliau i reoli canolfan ddata ond os gallwch chi ei gynnig yn ôl y gofyn efallai bydd yn fodlon rhoi'r gwaith i chi oherwydd ei fod yn rhoi mantais yn y farchnad.




- **Gwasanaethau ychwanegol y cwmwl**

  Drwy gadw yn y cwmwl ni fydd cwsmeriaid yn gorfod uwchraddio'u meddalwedd bob tro mae'u disgiau'n llawn a, drwy ddefnyddio rhaglenni yn y cwmwl, mae hyd yn oed offer cyfrifiadurol sy'n heneiddio yn gallu defnyddio technoleg newydd. Gallai hyn oll fod ar eich system. Byddwch angen contract cadarn yn dangos beth sy'n digwydd pan â pethau o chwith ac yn egluro yn union beth yn union sydd raid i chi ei wneud ynghylch ffeiliau wrth gefn a diogeledd – a bydd yn rhaid i chi egluro hyn wrth eich cleientiaid chi hefyd.

# Mae yna lawer o dechnoleg yn y cwmwl a fydd o gymorth i fusnes TGCh




- **Rhithwirio**
  Cyn belled â bod eich cysylltiad chi a chysylltiadau eich cleientiaid yn seiliedig ar fand eang cyflym iawn, gall eich cleientiaid ddibynnu llai ar eu systemau cyfrifiadurol eu hunain. Mewn gwirionedd, gallwch westeia penddesg cyfan, fel, pan fydd eich cwsmeriaid yn mewngofnodi – o unrhyw le ar unrhyw beiriant wedi'i gysylltu – bydd penddesg eu cyfrifaduron nhw eu hunain yn ymddangos o'u blaen. Ac nid y penddesg yn unig – gallwch rithwirio gweinyddion cyfan, eu tanio a'u diffodd yn ôl y gofyn. Meddyliwch, er enghraifft, am gleient yn y maes mân werthu ac e-fasnach. Efallai fod ganddo bentwr o archebion dros y Nadolig; gallwch gael gweinyddion ychwanegol iddo, eu diffodd pan nad oes eu hangen a defnyddio'r pŵer cyfrifiadurol yn rhywle arall. Dim ond am y gwasanaeth y mae'n ei ddefnyddio y bydd eich cleient yn talu.





# Gwnewch y gorau o TG

## Y canlyniad yn y pendraw fydd gweithio'n fwy slic a byddwch chi a'ch cleientiaid ar eich ennill.

- **Drwy dalu am ddim ond y seilwaith** rydych ei angen ac y gallwch ei werthu ymlaen, byddwch yn arbed llawer o arian heb effeithio ar y gwasanaeth rydych yn ei gynnig.



- **Bydd cyfathrebu trwy wahanol dechnolegau** ac osgoi'r gwasanaeth ffôn traddodiadol, drutach, unwaith eto'n lleihau costau heb niweidio'ch gwasanaeth.

- **Nid yn unig mae gennych gyfle** i werthu'r gwasanaethau hyn ymlaen i'ch cleientiaid yn y pendraw ond gallwch hefyd eu defnyddio eich hunan – ac os ydych yn cynnig gwasanaethau canolfan ddata bydd eich cleientiaid yn sylwi, ar ôl i chi newid i gysylltiad cyflymach, fod eich perfformiad wedi gwella.

# Awgrymiadau

**Rydych yn debyg o gael cynnig** amrywiaeth o gyflymderau Rhyngrwyd gan ddarparwyr yn cynnig band eang cyflym iawn. Ewch am y cyflymaf y gallwch ei fforddio. Efallai ei fod yn ymddangos yn gyflymach na'r hyn ydych ei angen eleni, ond ymhen 12 mis efallai na fydd yn ymddangos mor gyflym.

**Mae cleientiaid yn gwybod am fanteision** y Rhyngrwyd ond yn gallu gobeithio gormod. Bydd ymgynghorydd doeth yn sicrhau eu bod yn gwybod yn union beth sydd a beth nad yw ar gael mewn cytundeb lefel gwasanaeth.

**Dyw cadwyn ddim ond mor gryf â'i dolen wanaf,** felly wrth werthuso anghenion cleient, peidiwch ag anghofio - os ydyn nhw'n cysylltu o gartref ar gysylltiad gwael fe fyddan nhw'n meddwl fod eich gwasanaeth chi'n wael hefyd. Mae rheoli disgwyliadau'n bwysig.



**Byddwch yn gallu cynnig** mwy a mwy o wasanaethau'r cwmwl a rhithwirio unwaith y bydd pobl yn cael eu rhyddhau gan gysylltiad Rhyngrwyd cyflym. Efallai bydd raid i chi uwchraddio'ch set sgiliau cyn rhoi hyn ar y farchnad.

**Gwnewch yn siŵr nad yw eich systemau cyfrifiadurol** chi yn rhedeg rhaglenni yn y cefndir. Gall y rhain eich arafu – ac mae'n bosibl i fand eang cyflym iawn edrych yn araf os yw'ch systemau chi'n brysur yn gwneud pethau eraill!

# Cyflymu Busnesau Cymru

I ategu'r broses o gyflwyno band eang cyflym iawn ledled Cymru, gallwch gael cyngor ar beth allwch ei wneud unwaith y bydd ar gael i chi, a beth allwch ei wneud yn y cyfamser, i sicrhau bod eich busnes yn cael y mwyaf o fand eang cyflym iawn.

- Tyfu eich busnes
- Cynyddu effeithlonrwydd
- Cynyddu elw
- Hybu cynhyrchiant
- Gostwng eich costau

Am ragor o wybodaeth ac i lwytho i lawr eich Canllawiau 'Sut i…' YN RHAD AC AM DDIM, ewch i:

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy

Ffôn: 03000 6 03000

Cadwch yn gyfredol – dilynwch ni ar:

Busnes Cymru
Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government